

MARCH 2004



AROLWG HANES
LLANDEILO FAWR
HERITAGE AUDIT



Paratowyd gan Archaeoleg Cambria
Ar gyfer Cyngor Tref Llandeilo Fawr
Mawrth 2004

Prepared by Cambria Archaeology
For Llandeilo Fawr Town Council
March 2004



A R C H A E O L E G
CAMBRIA
A R C H A E O L O G Y

ARCHAEOLEG CAMBRIA ARCHAEOLOGY

RHIF YR ADRODDIAD / REPORT NO. 2004/26
RHIF Y PROSIECT / PROJECT RECORD NO. 50045

Mawrth 2004
March 2004

AROLWG HANES
LLANDEILO FAWR
HERITAGE AUDIT

Gan / By

Paul Sambrook
&
Jenny Hall

*Enw marchnata Ymddiriedolaeth Archaeolegol Dyfed yw Archaeoleg Cambria
Paratowyd yr adroddiad yma at ddefnydd y cwsmer yn unig. Ni dderbynnir cyfrifoldeb gan
Ymddiriedolaeth Archaeolegol Dyfed am ei ddefnyddio gan unrhyw berson na phersonau eraill a fydd
yn ei ddarllen neu ddibynnu ar y gwybodaeth y mae'n ei gynnwys*

*Cambria Archaeology is the marketing name of the Dyfed Archaeological Trust Limited. The report
has been prepared for the specific use of the client. The Dyfed Archaeological Trust Ltd can accept no
responsibility for its use by any other person or persons who may read it or rely on the information it
contains.*

ARCHAEOLEG CAMBRIA
Ymddiriedolaeth Archaeolegol Dyfed Cyf
Neuadd y Sir, Stryd Caerfyrddin, Llandeilo, Sir Gaerfyrddin SA19 6AF
Ffon: Ymholiadau Cyffredinol 01558 823121
Adran Rheoli Treftadaeth 01558 823131
Ffacs: 01558 823133
Ebost: cambria@acadat.com Gwefan: www.acadat.com

CAMBRIA ARCHAEOLOGY
Dyfed Archaeological Trust Limited
The Shire Hall, Carmarthen Street, Llandeilo, Carmarthenshire SA19 6AF
Tel: General Enquiries 01558 823121
Heritage Management Section 01558 823131



Project Part-financed
by the European
Union
European Regional
Development Fund



Cyngor Sir Caerfyrddin
Carmarthenshire County Council



Cynnwys

1.	Crynodeb Gweithredol	2
2.	Arolwg Treftadaeth Llandeilo Fawr	4
2.1	<i>Yr Arolwg</i>	
2.2	<i>Diolchiadau</i>	
2.3	<i>Amcanion</i>	
2.4	<i>Methodoleg</i>	
3.	Treftadaeth Llandeilo Yn Ei Gyd-Destun	8
3.1	<i>Llandeilo: Tref Hanesyddol</i>	
3.2	<i>Dynodiadau Statudol ac An-Statudol</i>	
3.3	<i>Llwybrau troed</i>	
3.4	<i>Mannau ac Adeiladau Cyhoeddus</i>	
3.5	<i>Dehongliad Presennol</i>	
4.	Dehongli A Hyrwyddo Treftadaeth	17
4.1	<i>Cynllun Dehongli Treftadaeth Tref Llandeilo</i>	
4.2	<i>Creu Delwedd "House Style" i Landeilo</i>	
4.3	<i>Hyrwyddo Treftadaeth</i>	
4.4	<i>Dehongli Treftadaeth</i>	
4.5	<i>Teithiau Treftadaeth</i>	
4.6	<i>Treftadaeth yn y Gymuned</i>	
4.7	<i>Cymdeithas Dreftadaeth</i>	
4.8	<i>Canolfan Dreftadaeth</i>	
5.	Archaeoleg A Hanes	21
5.1	<i>Cynhanesyddol</i>	
5.2	<i>Rhufeinig</i>	
5.3	<i>Oesoedd Canol Cynnar</i>	
5.4	<i>Yr Oesoedd Canol</i>	
5.5	<i>Ôl-ganoloesol</i>	
5.6	<i>20fed Ganrif</i>	
6.	Rhestr o Safleoedd	33
6.1	<i>Mynegai Safleoedd yn ôl enw</i>	
6.2	<i>Mynegai Safleoedd Cynhanesyddol gyda map</i>	
6.3	<i>Mynegai Safleoedd Rhufeinig gyda map</i>	
6.4	<i>Mynegai Safleoedd yr Oesoedd Canol gyda map</i>	
6.5	<i>Mynegai Safleoedd Ol-ganoloesol diwydiannol a masnachol gyda map</i>	
6.6	<i>Mynegai Safleoedd Ol-ganoloesol eraill gyda map</i>	
6.7	<i>Mynegai Safleoedd yr 20fed ganrif gyda map</i>	
6.8	<i>Rhestr o Safleoedd</i>	
7.	Atodiadau	112
7.1	<i>Briff yr Arolwg</i>	
7.2	<i>Gwerthuso'r Arolwg</i>	
7.3	<i>Sylwadau'r Cyhoedd</i>	
7.4	<i>Crynodeb o Gynlluniau Diweddar</i>	
8.	Rhestr darllen	124

1. CRYNODEB GWEITHREDOL

Ymgwymerwyd ag Arolwg Treftadaeth Llandeilo Fawr gan Archaeoleg Cambria yn ystod tri mis cyntaf 2004. Ariannwyd y prosiect yn rhannol gan Gyngor Sir Caerfyrddin fel rhan o'i Raglen Gwasanaethau a Themâu Gwledig gydag arian cyfatebol gan Gyngor Tref Llandeilo Fawr.

Fel rhan o'r prosiect defnyddiwyd elfennau o ymchwil hanesyddol gwreiddiol, gan ddefnyddio deunydd a gedwir yng Nghofnod Safleoedd a Chofebion rhanbarthol de orllewin Cymru, ar y cyd ag ymgynghori gyda'r gymuned, wnaeth gynnig darn sylweddol o wybodaeth hanesyddol a oedd heb ei gofnodi. Defnyddiwyd y wybodaeth hon i gynhyrchu adroddiad terfynol y prosiect ac i ychwanegu at Gofnod Safleoedd a Chofebau rhanbarthol ardal Llandeilo.

Mae'r prosiect wedi ailddatgan y ffaith fod gan Landeilo gyfoeth anhygoel o weddillion archaeolegol a safleoedd a themâu hanesyddol, gan wneud treftadaeth yn ased pwysig yn ddiwylliannol ac yn economaidd i'r dref a'r cylch.

- Llandeilo Rhufeinig
- Teilo Sant a Llyfr Efengyl Lichfield
- Tywysogion y Deheubarth a sedd frenhinol Dinefwr
- Tair bwrdeistref ganoloesol Llandeilo (Llandeilo Fawr, Dinefwr a'r Drenewydd)
- Ty'r Drenewydd a'r parc
- Bywyd yn Llandeilo (hanes tref farchnad wledig)

Er mwyn cynnwys y themâu hyn i mewn i unrhyw strategaeth dehongli treftadaeth ar gyfer Llandeilo a'r cylch, bydd yn angenrheidiol cychwyn proses o drafod ac ymgynghori helaeth gyda nifer o dirfeddianwyr a mudiadau, sydd â chyfrifoldeb uniongyrchol dros asedau treftadaeth allweddol (megis Castell Dinefwr, Eglwys St. Teilo, Eglwys Llandyfeisant, Ty'r Drenewydd a Pharc Dinefwr). Mae nifer o'r mudiadau hyn eisoes wedi dechrau gweithio ar fentrau i wella a hyrwyddo agweddau o'r amgylchedd hanesyddol.

Er nad yw'n briodol gwneud sylwadau yn uniongyrchol ar y mentrau hyn yn yr adroddiad hwn, teimlir ei bod yn hanfodol cydweithio wrth ddatblygu strategaeth fydd yn cynnwys yr holl fudiadau perthnasol, os yw llawn botensial treftadol y dref a'i hamgylchedd i'w gwireddu'n llawn.

Hefyd mae'r arolwg yn gallu gwneud nifer o argymhellion sy'n canolbwyntio'n benodol ar y thema derfynol sydd wedi'i dynodi uchod; hanes a datblygiad tref Llandeilo ei hunan. Nid yw'r pum thema arall yn colli eu pwysigrwydd fel themâu treftadaeth cyffredinol y gellir eu gwneud i mewn i gynllun o'r math hwn.

Felly, mae'n argymhelliad pendant gan yr arolwg, y dylid creu **Cynllun Dehongli Treftadaeth Llandeilo Fawr** sy'n canolbwyntio'n benodol ar thema **Bywyd yn Llandeilo**.

Dylai'r cynllun hwn gynnwys;

- Llunio "house style" er mwyn hyrwyddo treftadaeth Llandeilo
- dylid creu **Taflen, Tywyslyfr a gwefan am Dreftadaeth Llandeilo Fawr** er mwyn hyrwyddo treftadaeth y dref yn lleol a thu hwnt.
- byrddau dehongli a chelf cyhoeddus (megis murluniau, mosäig neu gerfluniau), mewn lleoliadau penodol gan wneud defnydd o'r chwe thema dreftadaeth a nodir uchod
- rhagor o ddeunydd dehongli treftadaeth i'w osod mewn lleoliadau eraill yn y dref, megis siopau, tafarndai a mannau cyhoeddus er mwyn i dreftadaeth ddod yn rhan o fywyd y gymuned
- sefydlu Cymdeithas Dreftadaeth leol i gwrdd â'r diddordeb mawr sydd mewn hanes a threftadaeth yn y gymuned

Mae'r arolwg yn cydnabod fod yna lawer o gynlluniau wedi'u cynnig yn y gorffennol, fel rhan o astudiaethau megis Astudiaeth Adfywio Llandeilo ar gyfer Cyngor Sir Caerfyrddin (1997) a'r Gwerthfawrogiad Cymunedol a ymgwymerwyd gan Uned Ymchwil Arolygon Gwledig Prifysgol Aberystwyth ar ran Antur Cwm Tâf Tywi (1998). Roedd y cynlluniau hyn yn aml iawn yn rhai uchelgeisiol, ond ychydig iawn o ganllawiau oedd ynddynt ynglyn â sut dylid eu rhoi at ei gilydd a phwy ddylid eu datblygu. Felly mae'r angen am gynnydd o ran datblygu, ac yn bwysicaf fyth, gweithredu strategaeth dreftadaeth ehangach hyd yn oed yn fwy.

2. AROLWG TREFTADAETH LLANDEILO FAWR

2.1 Yr Arolwg

Cyflwynwyd yr adroddiad hwn i Gyngor Tref Llandeilo Fawr a'r gymuned leol mewn cyfarfod cyhoeddus ar Fawrth yr 17eg, 2004. Mae'r gwaith yn ganlyniad i ymchwil hanesyddol ac ymgynghori cyhoeddus a gomisiynwyd gan Gyngor Tref Llandeilo Fawr ac a ymgwymerwyd gan Archaeoleg Cambria yn ystod tri mis cyntaf 2004. Ariannwyd y prosiect yn rhannol gan Gyngor Sir Caerfyrddin fel rhan o'i Raglen Gwasanaethau a Themâu Gwledig (cais rhif RSTP/EJ/03/54). Darparwyd yr arian cyfatebol gan Gyngor Tref Llandeilo Fawr.

Bwriad Arolwg Treftadaeth Llandeilo Fawr yw bod yn sail i strategaeth dreftadaeth ar gyfer tref Llandeilo a'r cylch yn y dyfodol. Y gobaith yw y bydd strategaeth o'r fath yn y dyfodol yn cydweddu gyda chynlluniau datblygu mudiadau eraill yn y gymuned, yn cynnwys yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt De a Gorllewin Cymru a'r Eglwys yng Nghymru, ac mae gan bob un ohonynt rôl bwysig i'w chwarae mewn gwaith hyrwyddo a rheoli amgylchedd, diwylliant ac asedau hanesyddol cyfoethog Llandeilo yn y dyfodol.

Mae gan dref Llandeilo Fawr hanes hynod ddiddorol a hir iawn hefyd. Ers bron i 2000 o flynyddoedd mae yna gyswllt milwrol, gwleidyddol, crefyddol a masnachol wedi bod, ac mae ond yn briodol ein bod yn edrych o'r newydd ar ei threftadaeth ar ddechrau'r trydydd mileniwm o anheddiad dynol.

2.2 Diolchiadau

Mae ond yn iawn i gynnig gair o ddiolch i nifer o bobl sydd wedi sicrhau bod Arolwg Treftadaeth Llandeilo Fawr yn gymaint o lwyddiant.

Dr. David Jones, Maer Llandeilo (2003-4), ei gyd gynghorwyr tref a Chlerc y Dref, Ms Colette Paterson, am godi ymwybyddiaeth y cyhoedd; Andrew Williams, Orchardweb, sydd wedi'i gwneud yn bosib i'r adroddiad fod ar gael ar lein; Lynwen Davies, Dewis, am gyfieithu ysgrifenedig a chyfieithu ar y pryd trwy gydol y prosiect hwn.

Rhaid diolch yn arbennig i drigolion Llandeilo a'r cylch sydd wedi cyfrannu gwybodaeth, ffotograffau, dogfennau ac arteffactau sydd wedi caniatáu i ni ychwanegu a gwella Cofnod Safleoedd a Chofebau Llandeilo a'r ardal yn sylweddol. Hefyd wnaeth nifer wneud sylwadau ynglyn â sut fyddent yn dymuno gweld eu treftadaeth yn cael ei ofalu amdano a'i hyrwyddo yn y dyfodol. Er bod rhai o'r sylwadau hyn y tu hwnt i orchwylion yr arolwg hwn maent wedi'u dogfennu yn Atodiad 3 er mwyn hysbysu datblygiadau'r dyfodol.

2.3 *Amcanion*

Gosodwyd yr amcanion canlynol gan briff y prosiect, sydd wedi'u hatgynhyrchu'n llawn isod yn 7.1;

1. Darparu argymhellion manwl ar ddatblygu teithiau treftadaeth a gweithiau dehongli perthynol ar gyfer Cyngor Tref Llandeilo Fawr.
2. I hysbysu'r datblygiad ynghylch strategaeth treftadaeth ehangach.
3. I ychwanegu at a gwella'r Cofnod o Safleoedd a Chofebau fel cofnod cymunedol cynaliadwy

Roedd yr amcanion i'w cyflwyno trwy gynhyrchu adroddiad dwyieithog ar y prosiect gan ychwanegu a gwella'r Cofnod o Safleoedd a Chofebau gwybodaeth sydd wedi'i gasglu o ganlyniad i ymchwil newydd ac fel rhan o'r ymgynghoriad gyda'r cyhoedd.

2.4 *Methodoleg*

Fel un o'r pedwar ymddiriedolaeth archaeolegol rhanbarthol yng Nghymru, mae Archaeoleg Cambria (Ymddiriedolaeth Archaeolegol Dyfed) yn ymddiriedolaeth elusennol, ac felly mae addysgu'r cyhoedd ynglyn ag archaeoleg yn un o rolau sylfaenol Cambria.

Mae'r mudiad wedi datblygu gwasanaeth allanol sy'n anelu at helpu cymunedau i wneud defnydd o'u hasedau treftadaeth trwy wneud Arolygon Treftadaeth Cymunedol.


Mae elfennau hanfodol unrhyw Arolwg Treftadaeth Cymunedol pan yn cyfeirio at brosiect arferol yn cynnwys;

- Creu arolwg treftadaeth drafft yn seiliedig ar gynnwys y Cofnod o Safleoedd a Chofebau rhanbarthol (SMR) ar gyfer de orllewin Cymru, a gedwir gan Archaeoleg Cambria
- Gweithio gyda'r gymuned leol i wneud yn siwr fod pobl leol yn cael cyfle i gymryd rhan yn y broses ac yn gallu cyfrannu tuag at gasglu gwybodaeth yn ogystal ag esbonio blaenoriaethau treftadaeth y gymuned.
- Integreiddio gwybodaeth o'r SMR gyda'r wybodaeth a ddarperir gan y gymuned leol (a gasglwyd yn y cyfarfodydd cyhoeddus a thrwy ddosbarthu taflenni casglu gwybodaeth y gellir eu dychwelyd yn y post neu trwy law).
- Cynhyrchu adroddiad terfynol sy'n cynnwys yr holl wybodaeth sydd ar gael yn ogystal ag argymhellion ar gyfer dehongli a rheoli adnodd treftadaeth y gymuned
- Ychwanegu a gwella'r SMR rhanbarthol trwy ychwanegu gwybodaeth newydd neu wybodaeth sydd wedi'i gywiro a gynhyrchwyd o ganlyniad i'r ymgynghori gyda'r cyhoedd ac ymchwil prosiect.

Cynhwyswyd yr elfennau hyn yn Arolwg Treftadaeth Llandeilo Fawr. Cynhaliwyd y cydweithio gyda'r cyhoedd mewn tri o gyfarfodydd cymunedol unigol; lansio'r prosiect, Diwrnod Treftadaeth Cymunedol a chyfarfod terfynol i gyflwyno'r

adroddiad terfynol i'r Cyngor Tref a'r gymuned. Defnyddiwyd gwefan Cyngor Tref Llandeilo (www.llandeilo.gov.uk) hefyd er mwyn i'r adroddiad drafft a'r adroddiad terfynol fod ar gael i'w dadlwytho er mwyn i gymaint â phosibl o bobl yn y gymuned fedru manteisio ar y cyfle.

Gellir gweld manylion methodoleg Arolwg Treftadaeth Llandeilo Fawr yn Atodiadau 1 a 2 ar ddiwedd yr adroddiad hwn.



3. TREFTADAETH LLANDEILO YN EI GYD-DESTUN

3.1. *Llandeilo: Tref Hanesyddol*

Yn seiliedig ar gynnwys y Cofnod o Safleoedd a Chofebau Rhanbarthol, cofnod cyhoeddus o safleoedd hanesyddol ac archaeolegol Gorllewin Cymru, a gedwir gan Archaeoleg Cambria, a chyn yr ymgynghoriad cyhoeddus ar Chwefror 21ain, awgrymir bod y themâu canlynol o bwysigrwydd arbennig ac yn haeddu sylw manwl pan yn llunio strategaeth dreftadaeth i Llandeilo. Serch hynny, yr ymgynghoriad cyhoeddus fydd yn arwain y rhestr derfynol o themâu.

3.1.1 *Llandeilo a chyfnod y Rhufeiniaid*

Heb amheuaeth mae hon yn thema bwysig yn ymwneud â hanes cynnar yr ardal, ac mae yna botensial am ddarganfyddiadau newydd a chyffrous wrth i archaeolegwyr wneud rhagor o waith astudio ar y caerau a'r dref a ddarganfuwyd ym Mharc Dinefwr yn 2003.

3.1.2 *St Teilo a Llyfr Efengyl Lichfield*

Gellir dweud bod hanes eglwys Teilo, a sefydlwyd yn y 5ed ganrif OC yn ôl traddodiad, yn unigryw i Llandeilo Fawr ac mae ganddo lawer i'w gynnig o ran gwaith dehongli a hyrwyddo. Mae yna bosibilrwydd ar hyn o bryd y gallai canolfan dreftadaeth ddod i Llandeilo yn seiliedig ar ddehongli Llyfr Efengyl Lichfield, oedd ym meddiant yr eglwys yn Llandeilo Fawr yn y canoloesoedd cynnar. Byddai hyn yn gam sylweddol tuag at hyrwyddo'r dref a'i threftadaeth.

3.1.3 *Tywysogion y Deheubarth a sedd frenhinol Dinefwr*

Mae statws Llandeilo a Dinefwr fel un o'r canolfannau canoloesol pwysicaf o ran pŵer, yn gysylltiedig gyda theulu brenhinol Dinefwr yn thema bwysig sy'n cynnig cyfleoedd gwych ar gyfer dehongli ac hyrwyddo. Mae hyn yn arbennig o wir o ystyried natur dramatig amddiffynfeydd y Deheubarth gan dywysogion lleol yn wyneb y pwysau mawr gan yr Eingl-Normaniaid dros gyfnod hir, a'r digwyddiadau cyffrous a'r cymeriadau diddorol oedd ynghlwm wrth hyn. Mae adfail wych Castell Dinefwr a Coed y Castell gerllaw yn eiddio i Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt De a Gorllewin Cymru.

3.1.4 *Tair bwrdeistref ganoloesol Llandeilo*

Yn y canoloesoedd, roedd tair tref cyfagos yn Llandeilo Fawr, Dinefwr (tu allan i Gastell Dinefwr) a'r Drefnewydd (ger safle Plas Newton). Mae hanes dirywiad a diflaniad Dinefwr a'r Drefnewydd yn bennod hynod yn hanes y fro. Anaml iawn y gellir gwahodd ymwelydd i fwynhau dehongli tair tref fwrdeistrefol ganoloesol sydd mor agos at ei gilydd, a hynny mewn tirwedd neilltuol o hardd, gan hefyd feddu ar gyfoeth o themâu hanesyddol.

3.1.5 *Ty'r Drennewydd*

Mae'r ty a'r dirwedd o dir parc hardd yn cyfuno i greu safle treftadaeth pwysig, sydd bellach yn eiddo i'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol. Mae'r cysylltiad rhwng Newton ac Arglwyddi Dinefwr yn rhan bwysig yn hanes yr ardal.

3.2 *Dynodiadau Statudol ac An-Statudol*

Mae yna nifer o ardaloedd o fewn cymuned Llandeilo sy'n meddu ar ddynodiadau statudol ac an-statudol, sy'n nodi gwerth uchel y cylch o ran ei dreftadaeth, tirwedd ac amgylchedd. Dangosir y rhain ar y mapiau sydd ynghlwm wrth hwn (Mapiau 2 a 3). O amgylch ffiniau'r dref mae Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig i'r de, dwyrain a gorllewin, ac mae hefyd yn eistedd o fewn ardal a ddiffinnir fel Tirwedd o Ddiddordeb Hanesyddol Neilltuol.

3.2.1 *Dynodiadau Statudol*

Mae ardaloedd sy'n rhwym wrth ddynodiadau statudol â gweithdrefnau rheoli sy'n rhoi cyfyngiadau ar weithgareddau o fewn pob ardal ddynodedig. Yr ardaloedd sy'n rhwym wrth ddynodiadau statudol yw;

- Ystâd Dinefwr SSSI (Côd SSSI 32WKJ): yn cynnwys y rhan fwyaf o Barc Dinefwr a Choedwig y Castell.
- Chwarel Crug SSSI (Côd SSSI 32WKE): yn gorchuddio ardal y chwarel o ddiwedd y 19eg ganrif a ddefnyddiwyd fel dymp sbwriel y dref ar ddechrau'r 20fed ganrif.
- Mae'r Afon Tywi (Côd SSSI 32WPO): yn SSSI a hefyd yn enghraifft o Ardal Gadwraeth Arbennig (SAC EU Côd UK0013010) a ddewiswyd oherwydd y rhywogaethau o famaliaid a physgod.
- Ardal Gadwraeth Llandeilo: crëwyd gan Gyngor Sir Caerfyrddin yn 1972, o dan amodau Deddf Cyfleustodau Dinesig 1967, oedd yn rhoi'r grym i awdurdodau cynllunio lleol i ddewis a dynodi ardaloedd o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig.


3.2.2 *Dynodiadau An-Statudol*


Er nad yw dynodiadau an-statudol yn meddu ar yr un goblygiadau cyfreithiol, maent yn ganllawiau pwysig o hyd o ran rheoli'r dirwedd hanesyddol ac amgylchedd naturiol. Mae'r ardaloedd canlynol yn rhwym wrth ddynodiadau an-statudol;

- Mae Parc Dinefwr (Plas Dinefwr - PGW(Dy)12 CAM): wedi'i gynnwys yng Nghofrestr 2002 Cadw/ICOMOS, o Dirweddau, Parciau a Gerddi o Ddiddordeb Hanesyddol Arbennig yng Nghymru Rhan 1 : Parciau a Gerddi. Mae Dyffryn Tywi (HLW (D) 5): yn cael ei gydnabod fel un o Dirweddau Hanesyddol mawr Cymru – yng Nghofrestr Cadw /ICOMOS, 1998 'o Dirweddau, Parciau a Gerddi o Ddiddordeb Hanesyddol Arbennig yng Nghymru, Rhan 2.1 Tirweddau o Ddiddordeb Hanesyddol Neilltuol yng Nghymru.

3.2.3 *Cofebau Hynafol Cofrestredig ac Adeiladau Rhestredig*

Mae llawer o safleoedd hanesyddol yn cael eu diogelu'n statudol naill ai fel Cofebau Hynafol Cofrestredig neu Adeiladau Rhestredig. Pan ysgrifennwyd hwn, dim ond un Gofeb Hynafol Gofrestredig sydd gan Llandeilo, Castell Dinefwr, sy'n cael ei warchod gan Cadw. Mae yna 91 o adeiladau rhestredig o fewn ardal y gymuned, mae'r rhan fwyaf ohonynt o ddiddordeb pensaernïol ac o fewn y dref ei hunan.





3.3 *Llwybrau troed*

Mae gan gymuned Llandeilo rhwydwaith helaeth o lwybrau troed cyhoeddus, (gweler Map 3). Mae llwybrau troed a llwybrau marchogaeth yn cynnig cyfleoedd gwych ar gyfer datblygu cynlluniau dehongli treftadaeth ac mae heb amheuaeth yn wir am Llandeilo. Serch hynny, mae'r rhwydwaith o lwybrau troed o fewn y gymuned yn croesi tir sy'n eiddo i nifer o fudiadau, sawl un ohonynt yn datblygu Mentrau eu hunain mewn perthynas â materion mynediad a dehongli. Mae'r rhain yn cynnwys;

- Parc Penlan, sy'n eiddo i Gyngor Sir Caerfyrddin, sydd â rhwydwaith o lwybrau a gellir cael mynediad iddo trwy'r brif giât ym mhen gogledd orllewinol Stryd Caerfyrddin. Gellir hefyd cael mynediad trwy giât mochyn y tu ôl i'r King's Head, ac ar hyd llwybr troed o'r goedwig i'r gorllewin o'r parc
- mae'r rhwydwaith o lwybrau troed ym Mharc Dinefwr yn eiddo i'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol
- mae'r rhwydwaith o lwybrau troed o fewn Coedwig y Castell yn eiddo i'r Ymddiriedolaeth Bywyd Gwylt ar gyfer De a Gorllewin Cymru
- yr Eglwys yng Nghymru sy'n berchen ar y llwybrau troed sy'n croesi mynwent eglwys y plwyf
- mae'r llwybr troed answyddogol o orsaf Reilffordd Llandeilo i'r Bont Siglo dros y Tywi, yn mynd ar draws tir sy'n eiddo i'r Rhwydwaith Rheilffyrdd

Ni ellir cynnwys argymhellion penodol yn yr adroddiad hwn ynglyn â sut y mae'r mudiadau hyn yn datblygu neu'n rheoli llwybrau troed, traciau neu ffyrdd sy'n croesi eu heiddo (gweler 4.1 am ragor o sylwadau).

Mae Archaeoleg Cambria yn ymwybodol bod llwybrau troed eraill yn croesi tir a berchenogir gan unigolion preifat (rhai ohonynt yn gorwedd y tu allan i ardal cymuned Llandeilo). Mae'r rhain yn cynnwys;

- y llwybr troed sy'n dilyn lôn Ysgubor yr Abad i'r Bont Siglo dros y Tywi ar hyn o bryd
- llwybr troed o Bont Llandeilo at Safle'r hen Farchnad yn Ffairfach
- llwybr Tir Cymen ar hyd glan dwyreiniol y Tywi o'r Bont Siglo i Heol Bethlehem yn Ffairfach
- y llwybr troed sy'n amgylchynu ymyl gogleddol y dref, o Stryd Caerfyrddin, trwy Crug Manor i ben gogleddol Stryd Rhosmaen.

Mae pob un o'r llwybrau troed hyn yn croesi tir preifat, ni ellir gwneud sylwadau mewn perthynas â'u rheolaeth yn y dyfodol na'u cynnwys mewn unrhyw fath o daith dreftadaeth (gweler 4.1 am sylw pellach).

Deallir bod ystyriaeth yn cael ei roi ar hyn o bryd gan Gyngor Sir Caerfyrddin, fel rhan o'r cynllun Adfywio, i'r posibilrwydd o greu taith wledig wedi'i dehongli a fyddai efallai'n cynnwys nifer o lwybrau troed a sonnir amdanynt uchod.

3.4 Mannau ac Adeiladau Cyhoeddus

3.4.1 Mannau ac Adeiladau sy'n rhoi mynediad i'r cyhoedd

Ystyrir y mannau a'r adeiladau cyhoeddus canlynol fel safleoedd allweddol mewn perthynas â gwaith dehongli a hyrwyddo treftadaeth yn y dref yn y dyfodol (gweler Map 4).

Parc Penlan

Cyngor Sir Caerfyrddin sy'n berchen ar y parc cyhoeddus hwn, ac mae ar agor trwy gydol y flwyddyn. Mae yna rwydwaith o lwybrau ynddo, ynghyd â nifer o feinciau yn y parc. Mae bandstand yn sefyll ar y man uchaf, sydd hefyd yn fan edrych gwych dros y dref yn ogystal â rhannau o ddyffryn Tywi a Ffairfach. Mae carreg goffa wedi'i gosod yn y parc ar adeg ymweliad yr Eisteddfod Genedlaethol yn 1996 sy'n cyfeirio at y prif nodweddion yn y dirwedd, gan gynnwys sawl safle treftadaeth.

Stryd y Brenin

Roedd y man parcio ceir ar Stryd y Brenin, ar ymyl gogledd orllewin o fynwent y dref unwaith yn rhan o safle marchnad hanesyddol Llandeilo. Mae yna gymeriad hanesyddol arbennig yn perthyn i'r ardal hon, gyda'r fynwent yn ffin iddi a hefyd aneddeledd Sioraidd a Fictoriaidaidd hardd ac eiddo masnachol.

Parc Mynwent yr Eglwys

Mae rhan fechan o fynwent y dref, wrth ymyl Stryd y Brenin, wedi'i haddasu'n ardd i'w defnyddio gan y cyhoedd. Mae gwaith wedi'i wneud i greu amgylchedd pleserus yn yr ardd ac mae meinciau hefyd wedi'u rhoi yno.

Y Prif Faes Parcio

Dyma yn wir yw rhan brysura f Llandeilo. Gellir cael mynediad ar droed neu mewn cerbyd o Heol Cilgant. Gellir cerdded o Stryd Rhosmaen trwy'r cysgod a'r ale at ochr orllewinol y maes parcio. Mae yna doiledau cyhoeddus yn y gornel hon. Mae'r adeiladau cyhoeddus sydd ar hyd ochr orllewinol y maes parcio yn cynnwys y Ganolfan Croeso, meddygfa a llyfrgell y dref. Lleolir adeiladau lleol y Cyngor Sir yng nghornel de ddwyrain y maes parcio, ac wrth ei ymyl ceir lôn sy'n arwain at Stryd Ebeneser.

Stryd Ebeneser

Ceir golygfeydd gwych dros ddyffryn ac afon Tywi, a hefyd y bryniau ar hyd ochr ddwyreiniol dyffryn Tywi o'r fan hon. Mae meinciau a byrddau wedi'u gosod yma ac maent yn boblogaidd yn ystod misoedd yr haf.

Y Neuadd Farchnad (Tu allan)

Tybier bod y tir sydd union wrth ymyl yr hen Neuadd Farchnad ar gyffordd Heol Newydd a Stryd Caerfyrddin, ar eu hymylon deheuol a gorllewinol, sydd bellach yn cael eu defnyddio fel mannau parcio answyddogol yn eiddo i Gyngor Sir Caerfyrddin. Mae maes parcio bychain a ddefnyddir ar y cyd gyda'r lle ailgylchu sydd gerllaw, wedi'i leoli ym mhen dwyreiniol yr adeilad, credir mai'r Cyngor Sir sy'n berchen hwn hefyd.

Neuadd Ddinesig (Drill Hall)

Mae'r adeilad hwn, a berchenogir gan Gyngor Sir Caerfyrddin, yn cael ei ddefnyddio'n rheolaidd fel man cyhoeddus i gyfarfod. Mae iddo werth hanesyddol a chymdeithasol.

3.4.2 Mannau ac Adeiladau nad ydynt yn agored i'r cyhoedd ar hyn o bryd


Mae yna dri adeilad arall sydd yn aml iawn yn cael eu cyfeirio atynt fel adeiladau cyhoeddus yn y dref, ond ar hyd o bryd mae mynediad iddynt gan y cyhoedd yn cael ei effeithio naill ai gan eu defnydd neu ddim defnydd.

Y Neuadd Farchnad

Cyngor Sir Caerfyrddin sy'n berchen ar yr hen Neuadd Farchnad sydd ar y gyffordd gyda Heol Newydd a Stryd Caerfyrddin. Defnyddiwyd y lle ddiwethaf fel ffowndri, ond mae wedi bod yn segur am nifer o flynyddoedd. Dyma un o adeiladau mwyaf deniadol Llandeilo ac mae o ddiddordeb hanesyddol a phensaernïol sylweddol.

Y Cyngor Tref sy'n berchen Y Neuadd Sirol. Mae'n adeilad o ddiddordeb hanesyddol mawr ac mae'n gyn neuadd farchnad ŷd a llysoedd yr ynadon. Bellach dyma gartref Archaeoleg Cambria (Ymddiriedolaeth Archaeoleg Dyfed) er mae rhan o'r hen ystafell lys yn parhau i'w cael ei defnyddio fel ystafelloedd cyfarfod y Cyngor Tref. Hefyd cedwir y Cofnod o Safleoedd a Chofebau yn y gyn ystafell lys hon a gall aelodau o'r cyhoedd ei gweld trwy apwyntiad.

Yr Athrofa Lenyddol, cyn gapel Methodistaidd, deallir mai ymddiriedolaeth elusennol sy'n berchen arno. Mae'n ymddangos bod ei swyddogaeth fel ystafell ddarllen a llyfrgell cyhoeddus wedi dod i ben. Serch hynny, mae'r adeilad yn parhau i'w ddefnyddio fel neuadd snwcer.



3.5 Dehongliad Presennol

Er bod yna lawer o arysgrifau coffäol ar adeiladau cyhoeddus a strwythurau eraill yn Llandeilo, cyfyng yw'r defnydd o fyrddau dehongli a chelf cyhoeddus ar hyn o bryd. Rhestr y rhai mae Archaeoleg Cambria yn gwybod amdanynt yma.

- **Six Bells.** Preifat, plac crwn bychan yn coffau'r awdur o'r 18fed ganrif Thomas Edwards (Twm o'r Nant). Ceir y geiriau "*Yma triga Twm o'r Nant 1739-1810, awdur anterliwtiau*"
- **Parc Penlan.** Cofeb o garreg gydag arysgrif arni ym mhen uchaf y parc, ac a roddwyd yno gan y Clwb Rotari i goffau Eisteddfod Genedlaethol Llandeilo yn 1996. Mae'n dehongli'r olygfa ar hyd ddyffryn Tywi y gellir ei gweld o'r fan honno.
- **Parc Penlan.** Mae yna fwrdd gwybodaeth y tu fewn i fynedfa Parc Penlan, a godwyd yno gan Gyngor Sir Caerfyrddin, sy'n rhoi hanes y parc.
- **Swyddfeydd y Cyngor Sir.** Cerfiad mawr pren o Arglwydd Rhys Dinefwr, a gerfiwyd ar gyfer yr Eisteddfod Genedlaethol yn Llandeilo yn 1996 gan Simon Hedger. Mae'r cerfiad yn rhyw 10 troedfedd o uchder ac yn pwyso tunnelli a hanner. Wedi'r Eisteddfod aed â'r cerfiad i swyddfeydd y Cyngor Sir yn Llandeilo lle y mae i'w weld heddiw.
- **Swyddfeydd y Cyngor Sir.** Barcud Coch ar do'r adeilad.
- **Mynwent St Teilo.** Tylluan wedi'i cherfio o foncyff coeden sydd wedi cwmpo yn y fynwent yn 2003 gan Simon Hedger (ef hefyd gerfiodd ffigwr yr Arglwydd Rhys, sydd bellach yn swyddfeydd y cyngor).
- **Maes parcio canolog y dref.** Bwrdd gwybodaeth yng nghornel gogledd orllewin y maes parcio. Mae yna fap amlinellol yn dangos rhai o leoliadau allweddol y dref.

4. DEHONGLI A HYRWYDDO TREFTADAETH

4.1 *Cynllun Dehongli Treftadaeth Tref Llandeilo*

O ystyried pwysigrwydd hanesyddol Llandeilo, mae'n amlwg fod yna gyfleoedd sylweddol i wneud defnydd o themâu hanesyddol wrth hyrwyddo'r dref a'r ardal.

Dylid cymryd gofal i ddatblygu cynllun treftadaeth sy'n cydweddu gydag unrhyw strategaethau sy'n cael eu datblygu gan fudiadau eraill ar gyfer y tir o amgylch y dref (7.4 isod yn rhoi rhyw syniad o'r amrediad ehangach o fentrau sydd wedi'u crybwyll ar gyfer yr ardal dros y blynyddoedd diwethaf). Tebyg i reoli a datblygu llwybrau troed, mae'r angen am gydweithio rhwng y partïon sydd â diddordeb yn hanfodol.

Mae Adran 3 o'r adroddiad hwn yn dangos fod perchnogaeth, rheolaeth a hyrwyddo rhannau mawr o ardal cymuned Llandeilo yn gyfrifoldeb ar nifer o asiantaethau a mudiadau, a thu allan i orchwyl gwaith uniongyrchol Cyngor Tref Llandeilo Fawr. Felly argymhellir y dylai Cyngor Tref Llandeilo Fawr ddatblygu **Cynllun Dehongli Treftadaeth Tref Llandeilo** gan ganolbwyntio ar **dref Llandeilo**.

4.2 *Creu Delwedd "House Style" i Llandeilo*

Mae yna angen mawr i ddatblygu strategaeth dreftadaeth ehangach ar y cyd a thrwy ymgynghori gyda phob grwp a mudiad sydd â diddordeb, gan gynnwys grwpiau cymunedol, sydd â diddordeb mewn hyrwyddo treftadaeth Llandeilo. Mae hon yn elfen hanfodol o unrhyw strategaeth ddehongli neu hyrwyddo.

Felly argymhellir bod Cyngor Tref Llandeilo yn ceisio hwyluso trafodaeth ymysg y cyrff a enwir uchod gyda'r bwriad o gydlynu eu hymdrechion ym maes hyrwyddo a dehongli er mwyn cynhyrchu delwedd "house style" neilltuol i'r dref. Nid yw delwedd fel hon ar gael ar hyn o bryd. Mae'n amser da felly i greu arddull neu ddelwedd hyrwyddo, yn seiliedig ar y cyfoeth o thema treftadaeth y mae'r dref a'r ardal yn meddu arnynt. Byddai hyn yn galluogi amrywiaeth o grwpiau diddordeb, yn cynnwys busnesau a chymdeithasau lleol, yn ogystal â chyrff mwy, i ddefnyddio delwedd neilltuol i'w rhannu rhwng pawb a hynny yn y pendraw er lles y gymuned leol ac ymwelwyr fel ei gilydd.

4.3 *Hyrwyddo Treftadaeth*

Mae'r angen am **Gynllun Dehongli Treftadaeth Tref Llandeilo** yn sylfaenol o ran creu amrediad o ddeunyddiau hyrwyddo.

Argymhellir ;

- creu **Taflen Dreftadaeth Tref Llandeilo** i hyrwyddo treftadaeth y dref yn lleol a thu hwnt.

- creu **Llawlyfr Treftadaeth Tref Llandeilo** i ddehongli treftadaeth y dref i ymwelwyr. Pwrpas y llawlyfr oedd darparu canllaw hanesyddol i ymwelwyr â'r dref, yn ogystal â hyrwyddo byrddau dehongli neu gelf cyhoeddus.
- Gosod deunydd hyrwyddo a dehongli ar **wefan** Cyngor Tref Llandeilo Fawr er mwyn cael cymaint â phosib o sylw i dreftadaeth Llandeilo yn fyd-eang.

Dylai pob deunydd hyrwyddo fod yn ddwyieithog, Cymraeg a Saesneg, a dylid rhoi sylw at ddefnyddio testun amlieithog, yn arbennig deunydd sy'n cael ei osod ar y wefan.

4.4 Dehongli Treftadaeth

Lle mae dehongli treftadaeth yn cynnwys gosod byrddau neu gelf cyhoeddus yn y gymuned, mae'n hanfodol bwysig dewis lleoliadau addas, mewn perthynas â pherthnasedd, amlygrwydd a'u bod o fewn golwg hawdd.

Gellir gosod y byrddau dehongli yn y mannau cyhoeddus a ddangosir ar Fap 4 a restrir hwy isod. Dylai byrddau fel hyn barchu'r thema gyffredinol sef **Bywyd yn Llandeilo**, gan dynnu ar agweddau o hanes cymdeithasol, diwylliannol a masnachol y dref, ynghyd ag elfennau o'r prif themâu a restrir yn 3.1 uchod.

Gellir defnyddio celf cyhoeddus, ar ffurf cerfluniau neu mosäig mewn lleoliadau allweddol o fewn i'r dref gan fod yn elfen bwysig mewn cynllun dehongli treftadaeth, gan dynnu ar gyfoeth o themâu hanesyddol sydd gan y dref i'w cynnig.

Serch hynny, dylid cymryd gofal mawr wrth ddewis y lleoliadau ar gyfer unrhyw fyrdau neu gelf cyhoeddus er mwyn gwneud yn siwr nad ydynt yn amharu ar, neu'n tynnu oddi wrth gymeriad hanesyddol y dref.

Mae'n bwysig nodi fod pob un o'r ardaloedd a restrir yma yn agored i'r anabl, er bod angen gwneud arolwg manwl o'r materion a chyfleusterau mynediad i'r anabl.

Parc Penlan

Dyma leoliad addas ar gyfer gosod byrddau dehongli fyddai'n cynnwys agweddau cyffredinol ar hanes y dref, hanes y parc a'r dirwedd weladwy. Mae yna ddigon o le yn y man y tu fewn i'r fynedfa i'r parc i osod cerfluniau neu fathau eraill o gelf cyhoeddus, megis mosäig neu furlun ar hyd wal ochr chwith i'r ffordd sy'n mynd i mewn i'r parc.

Y Neuadd Farchnad (Tu allan)

Nid yw defnydd o'r adeilad yn y dyfodol yn sicr a bydd yn effeithio'r hyn sydd yn bosibl o ran deunyddiau dehongli allanol. Mae yna botensial i osod bwrdd dehongli yng nghornel Heol Newydd a Stryd Caerfyrddin, ond byddai defnyddio'r man hwn yn golygu diwedd y parcio answyddogol ar y palmant. Byddai'r dehongli yn cynnwys pynciau megis hanes y Neuadd Farchnad, yr Ysgol Genedlaethol gyferbyn a defnydd o'r man cyhoeddus fel lle cynnal marchnad.

Stryd y Brenin

Mae yna ddigonedd o le i osod byrddau dehongli ar hyd ochr y fynwent yn y man agored hwn. Dyma safle delfrydol i ddehongli pynciau megis marchnadoedd a ffeiriau canoloesol a oedd yn cael eu cynnal yma, bwrdeistref eglwysig Llandeilo, a Twm o'r Nant.

Parc y Fynwent

Dyma le addas i osod bwrdd dehongli neu gelf cyhoeddus sy'n canolbwyntio ar hanes St Teilo, yr eglwys a'r fynwent.

Prif Faes Parcio

Mae yna ddigonedd o le ar gyfer byrddau dehongli o amgylch y maes parcio, yn ogystal â chelf neu gerflun cyhoeddus, yn delio gyda phrif themâu treftadaeth Llandeilo a restrir yn 3.1 uchod. Tynnir sylw yn arbennig at yr angen am fwrdd gwybodaeth cyffredinol, gan gynnwys map o'r dref, ger y Ganolfan Croeso a'r fynedfa i Stryd Rhosmaen. Mae'r muriau o dan y cysgod sy'n arwain o'r maes parcio i Stryd Rhosmaen hefyd yn lleoliadau posib ar gyfer gosod byrddau neu furluniau.

Stryd Ebeneser

Fe fyddai fan yma yn lle addas i osod bwrdd dehongli yn esbonio nodweddion y gellir eu gweld megis Bryngaer Garn Goch, y carneddau claddu cynhanesyddol ar Trichrug a Choedwig Tregib.

4.5 Teithiau Treftadaeth

Yn ogystal â gwneud defnydd o'r mannau agored hynny a restrir yn 4.3, mae yna gyfleoedd pellach ar gyfer hyrwyddo teithiau treftadaeth o fewn ardal y gymuned, gan wneud defnydd o lwybrau troed lleol, traciau a ffyrdd.

Fel a amlygir yn 3.4 uchod, mae'r rhwydwaith o lwybrau troed sy'n bodoli y tu allan i'r dref ei hunan yn eiddo i neu'n cael eu rheoli gan nifer o fudiadau a thirfeddianwyr preifat. Felly oherwydd hyn, bydd unrhyw ddatblygu teithiau yn y dyfodol yn golygu gwaith cydlynw rhwng yr amrywiol fudiadau a Chyngor Tref Llandeilo Fawr i wneud yn siwr yn y dyfodol bod y rhwydwaith o lwybrau troed yn cael ei reoli, cyn belled â phosibl, gydag amcanion strategol cyffredin.

Argymhellir bod y Cyngor Tref yn canolbwyntio ei sylw ar wneud yn siwr fod y dref eu hunan yn cael ei hintegreiddio i mewn i strategaeth o'r fath. Mae'r cysylltiadau rhwng y rhwydwaith ffyrdd a mannau cyhoeddus yn y dref, gyda'r llwybrau troed y tu allan i'r dref yn elfen hanfodol o unrhyw strategaeth dreftadaeth ar gyfer Llandeilo.

Efallai yn wir y dylid osgoi'r diffiniad penodol "teithiau treftadaeth" o blaid agwedd o annog ymwelwyr i archwilio agweddau treftadaeth y dref yn hollol rydd (gweler 4.6).

4.6 Treftadaeth yn y Gymuned

Credir ei bod bwysig dod â threftadaeth i mewn i wead y gymuned ac nid ei gyfyngu'n llwyr i leoliadau set. Argymhellir felly bod deunydd treftadaeth a

dehongli, yn ychwanegol at y daflen dreftadaeth a byrddau dehongli a sonnir amdanynt uchod, yn cael eu harddangos mewn mannau eraill o fewn i'r dref.

Enghraifft o hyn fyddai defnyddio printiau ffotograffau DC Harries' i'w rhoi mewn siopau, tafarndai a chaffis yn dangos fel oedd Llandeilo unwaith yn edrych. Enghraifft arall efallai byddai defnyddio placiau yn dynodi adeiladau hanesyddol, neu adeiladau sy'n gysylltiedig gyda digwyddiadau hanesyddol neu bobl adnabyddus.

4.7 Cymdeithas Dreftadaeth

Argymhellir bod y Cyngor Tref yn hwyluso sefydlu Cymdeithas Dreftadaeth yn Llandeilo. Mae'n amlwg fod yna angen grwp o'r fath yn y gymuned i gwrdd â'r diddordeb mawr mewn hanes a threftadaeth, ond hefyd i gynorthwyo i ganoli brwdfrydedd ar ddatblygu prosiectau treftadaeth yn y gymuned yn y dyfodol.

4.8 Canolfan Dreftadaeth

Yng Ngwerthusiad Cymunedol o Landeilo yn 1998 amlygwyd bod nifer fawr o drigolion lleol o'r farn y byddai amgueddfa neu ganolfan dreftadaeth yn fodd pwysig o hyrwyddo treftadaeth yn lleol (wnaeth 43% o'r rhai wnaeth ymateb i'r arolwg fynegi'r farn hon). Mae tystiolaeth storiol yn awgrymu bod y farn hon yn gryf ymysg y gymuned o hyd, ac yn wir codwyd y mater yn ystod yr ymgynghoriad cymunedol a cyflawnwyd yn ystod y prosiect hwn (gweler 5.3 isod).

Efallai bod sefydlu cyfleuster o'r fath yn ymddangos fel dewis deniadol, ac fe allai yn wir gyfrannu'n fawr at broffil treftadaeth y dref. Serch hynny mae yna lawer o faterion yn ymwneud â sefydlu a chynnal a chadw amgueddfa neu ganolfan dreftadaeth sy'n gallu achosi problemau. Mae materion megis lleoliad cyfleuster o'r fath, cynnal a chadw'r adeiladau a'r casgliadau, staffio, ariannu a rheoli yn golygu bod hyd yn oed canolfan dreftadaeth fechan ychydig yn frawychus. Serch hynny, bod datblygu strategaeth dreftadaeth, a hefyd sefydlu cymdeithas dreftadaeth lleol efallai yn y pendraw yn creu syniadau, gweithgareddau ac egni a fyddai efallai'n golygu y byddai cyfleuster o'r fath yn bosibl yn y dyfodol.

Yn y cyfamser, mae'n bwysig edrych ar dref Llandeilo ei hunan fel canolfan dreftadaeth, sy'n haeddu cael ei dehongli a'i hyrwyddo, gan wneud y defnydd gorau posibl o dreftadaeth gyfoethog y mae'r gymuned yn meddu arni.

5. ARCHAEOLEG A HANES

5.1 Cynhanesyddol

Ychydig iawn sydd wedi'i gofnodi'n archaeolegol o fewn ffiniau tref Llandeilo Fawr sy'n perthyn i'r cyfnodau cynhanesyddol. Mae'r ychydig o dystiolaeth sydd wedi'i gofnodi yn dynodi bod cymunedau dynol wedi gwneud defnydd o'r tir o amgylch y dref fodern ers cyfnod y ffermwyr cyntaf o leiaf, yn ystod y cyfnod Neolithig (5000CC-2500CC). Darganfuwyd bwyell o garreg caboledig (CSH862), wedi'i gwneud o ryolit, o ddyddiad Neolithig yn fwy na thebyg yng Nghastell Dinefwr yn 1876, a roddwyd yn ddiweddarach i Amgueddfa Genedlaethol Cymru gan Arglwydd Dinefwr. Darganfuwyd ail fwyell (CSH908) a gredir sy'n dyddio o'r cyfnod Neolithig ac wedi'i gwneud o gornfaen caboledig yn 1913, mewn cae yng ngwaelod y dref sy'n cael ei adnabod fel Cae Crug Mawr, ar ymyl gorlifdir y Tywi.

Mae yna ryw faint o dystiolaeth o weithgarwch dynol o amgylch Llandeilo yn ystod yr Oes Efydd (2500CC-700CC) yn ffurf y twmpath sy'n rhoi'r enw i Gae Crug Mawr a sonnir amdano uchod, credir mai crug crwn neu domen gladdu (CSH903) ydyw. Mae dystiolaeth archaeolegol o weithgareddau pobl o'r Oes Efydd yng Nghymru yn cael ei dominyddu gan dystiolaeth o'u safleoedd claddu, yn ffurf y carneddau a chrugiau ar ben y brynau, lle oedd gweddillion corfflosgiad yn cael eu cadw fel arfer mewn yrnau corfflosgi. Mae yna lawer o safleoedd claddu fel hyn wedi'u cofnodi yn y rhan hon o Sir Gaerfyrddin, yn arbennig ar y tir uwch naill ochr i ddyffryn Tywi ar Fryniau Sir Gaerfyrddin. Nid yw crugiau ar lawr y dyffryn mor gyfarwydd ac felly mae Crug Mawr o gryn bwysigrwydd. Darganfuwyd pen morthwyl o bosib o'r Oes Efydd (CSH905), wedi'i wneud o garreg cwartsit mewn pwll islaw Castell Dinefwr yn 1918 sydd bellach yn cael ei gadw yn Amgueddfa Caerfyrddin.

Efallai ei bod yn syndod nad yw'r Oes Haearn (700CC–AD70) wedi'i chofnodi hyd yn hyn yng nghofnod archaeolegol Llandeilo, er bod yr olygfa i gyfeiriad y gogledd o'r dref yn cael ei dominyddu gan y fryngaer drawiadol o'r Oes Haearn, sef Garn Goch, sy'n brawf pendant fod yna boblogaeth wedi hen sefydlu ei hunan yn yr ardal erbyn yr Oes Haearn. Fe'i awgrymwyd fod castell canoloesol Dinefwr ei hunan wedi'i leoli ar safle bryngaer o'r Oes Haearn (CSH880), ond ar hyn o bryd nid oes yna dystiolaeth archaeolegol ar gyfer safle o'r fath. Serch hynny, mae gwaith diweddar gan Archaeoleg Cambria y tu mewn i Barc Dinefwr wedi darganfod safle bryngaer posibl. Mae ymchwiliadau archaeolegol yn dal i fynd ymlaen mewn cysylltiad â hyn a disgwylir cadarnhad terfynol o leoliad a natur y safle yn fuan. Mae'r cyfnod yn nodedig fel oes o lwythi a rhyfelwyr Celtaidd pan oedd rhyfela yn ffordd o fyw, ac roedd y bryngaerau hyn yn gadarnleoedd amddiffynnol pwysig. Serch hynny, mae'n bwysig cofio mai'r boblogaeth amaethyddol oedd yn cynnal y penaethiaid a'r rhyfelwyr gan wneud defnydd helaeth o adnoddau naturiol yr ardal, gyda rhan fwyaf o'r boblogaeth yn fwy na thebyg yn byw ar ffermydd gwasgaredig.

5.2 Rhufeinig

Mae darganfyddiadau diweddar wedi chwyldroi ein dealltwriaeth o Landeilo yn ystod y cyfnod Rhufeinig. Yn 2003 pan gynhaliwyd arolwg geoffisegol ym Mharc Dinefwr gwelwyd mai dyma oedd safle caer Rufeinig a thref *vicus*, o'r diwedd cadarnhawyd yr hyn yr oedd rhai wedi ei amau, sef bod gan Landeilo orffennol Rhufeinig. Mae lleoliad Llandeilo eisoes yn cael ei ddynodi fel tipyn o ffefryn fel lleoliad ar gyfer caer neu gaer fechan. Mae hanner ffordd rhwng y caerau Rhufeinig yng Nghaerfyrddin a Llanymddyfri ac o fewn gorymdaith diwrnod i bob un, ond hefyd yn agos at y ffordd Rufeinig ar hyd dyffryn Tywi ac wrth fan croesi dros y Tywi.

Mae yna lawer o ddarganfyddiadau archaeolegol yn y gorffennol a oedd yn awgrymu fod yna bresenoldeb Rhufeinig cryf yn yr ardal. Mae'r rhain yn cynnwys celciau arian bath (CSH869 a CSH886) a hefyd darganfyddiad o un geiniog (CSH875), carreg filltir o'r 3edd ganrif gydag arysgrif i'r Ymerawdwr Tacitus arni (CSH872) a rhai nodwyddau efydd Rhufeinig a ddarganfuwyd tua 1875 (CSH910). Darganfuwyd celc arian bath CSH869 yn agos iawn at eglwys Llandyfeisant, ac mae yna draddodiad di-sail fod yr eglwys ei hunan wedi'i hadeiladu ar seiliau adeilad Rufeinig, fila neu deml o bosib (CSH7367). Ychydig iawn o dystiolaeth sydd yna o adeilad o'r fath, heblaw am ddarganfyddiadau o deils mosäig ddiwedd yr 20fed ganrif, sydd efallai'n dyddio o gyfnod y Rhufeiniaid, a hynny ym mynwent yr eglwys. Yn ddiweddar hefyd mae darnau o grochenwaith oedd yn gyfarwydd yn ystod y cyfnod Rhufeinig wedi'u darganfod yng ngwely nant ym Mharc Dinefwr (CSH32105), crochenwaith sy'n cael ei alw'n lestri llathredig du. Yn ystod y cyfnod pan oedd ffordd osgoi Llandeilo yn cael ei adeiladu ar ddechrau'r 1990'au (CSH47646) codwyd ychydig ddarnau o grochenwaith oedd yn nodweddiadol o'r oes Rufeinig, sef llestri Samian, a oedd yn cael eu cynhyrchu yn Gâl yn ystod cyfnod y Rhufeiniaid. Ers 2000, mae nifer rhagor o ddarganfyddiadau Rhufeinig wedi'u canfod yn ardal Home Farm a Cae William, gan gynnwys darnau efydd, arian o'r ganrif 1af AD a dolen amffora (CSH 47647-50) sy'n rhoi rhyw syniad i ni o botensial archaeolegol yr ardal.

Yn dilyn arolwg geoffisegol yn 2003 a ymgwymerwyd gan yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol cyflwynwyd canlyniadau hynod pan ddarganfuwyd y gaer ei hunan. Roedd amlinelliad o ddwy gaer fawr i'w gweld yn glir ar y sgan geoffisegol, un yn gorwedd yn rhannol dros y llall (CSH47637). Credir bod y gaer hynaf (CSH476360) yn dyddio o gyfnod pan gafodd Cymru ei choncuro gan y Rhufeiniaid, tua AD70 – AD74. Efallai y byddai'r gaer hon wedi'i gadael am gyfnod wedi'r goncwest, ond adeiladwyd ail gaer llai o faint ar yr un safle yn fuan wedyn, efallai er mwyn cadw'r heddwch a chynorthwyo i gadw'r ardal dan reolaeth y Rhufeiniaid.

Mae'r sgan hefyd yn dangos ffyrdd Rhufeinig yn rhedeg i gyfeiriad y gogledd ddwyrain (CSH47638) ac i'r dwyrain (CSH47639) o'r fynedfa i'r gaer, a oedd yn fwy na thebyg yn cysylltu gyda ffordd dyffryn Tywi i Lanymddyfri ac o bosib i fan croesi islaw'r dref fodern. Gellir gweld ffordd arall yn mynd i gyfeiriad y de ddwyrain (CSH47640), o bosib tuag at Landyfeisant ac efallai tuag at fan croesi'r afon islaw'r bont fodern. Mae'n amlwg fod yna bedwaredd ffordd yn mynd i gyfeiriad y gogledd orllewin (CSH47641), yn fwy na thebyg fel cyswllt gyda ffordd dyffryn Tywi i Gaerfyrddin. Gellir gweld adeilad ar hyd y ffordd hon ar yr arolwg geoffisegol, efallai ein bod yn edrych ar faddondy Rhufeinig (CSH47643). Lleolir mewn cae o'r enw Cae Bric, lle darganfuwyd crochenwaith Llestri Samian yn yr 1990'au. Efallai'r

ddelwedd sy'n cyffroi fwyaf ar y sgan yw'r amlinelliad o'r hyn y credir i fod yn dref *vicus* fechan y tu allan i giât gogledd ddwyreiniol yr ail gaer. Efallai yn wir mai dyma'r dref gyntaf i dyfu yn Llandeilo ac er nad ydym yn gwybod ei henw na ar hyn o bryd, rhyw lawer am ei nodweddion, mae'r ffaith fod yna dref yno yn caniatáu i ni ddyfalu fod gan dref Llandeilo 2000 o flynyddoedd o hanes! Os na ddeilliodd ddim arall o hyn, wnaeth sefydlu Llandeilo fel canolfan filwrol Rufeinig ac yna awdurdod gwleidyddol a sifil a wnaeth efallai arwain yn y pendraw at ddechreuadau cymuned Gristnogol gynnar, a oedd efallai yn sail i'r bennod wych nesaf yn hanes yr ardal, pan ddechreuodd yr anheddiad fel ag yr ydym ni yn ei hadnabod nawr fel Llandeilo Fawr ddechrau ffurfio yn ystod y canrifoedd yn dilyn diwedd teyrnasiad y Rhufeiniaid.

5.3 Oesoedd Canol Cynnar

Ers amser maith mae'r canol oesoedd cynnar wedi'i adnabod fel yr Oesoedd Tywyll, o gofio colli'r dylanwad rhufeinig yn ystod y 5ed ganrif AD. Yng Nghymru hefyd mae'r term "Oes y Seintiau" hefyd weithiau'n cael ei ddefnyddio, gan adlewyrchu twf yr Eglwys Gristnogol – sydd heb amheuaeth yn derm mwy priodol i'w ddefnyddio pan yn trafod hanes Llandeilo Fawr.

